

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Sara Scott, DMSS Research

Ail argraffiad, Medi 2023

Negeseuon allweddol

Fel mae'r enw'n disgrifio, mae 'cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu' yn cyfeirio at gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn amgylchedd teuluol. Gall cam-drin gynnwys perthnasau neu eraill (fel gofawyr maeth neu bartner rhiant) sy'n teimlo fel teulu o safbwynt y plentyn.

Mae'r amgylchedd teuluol yn gyd-destun cyffredin lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, sy'n cyfrif am bron i hanner yr holl droseddau cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu riportio i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun teuluol yn ddynion, er bod cam-drin gan fenywod yn digwydd. Yn ogystal ag oedolion, gall plant eraill sy'n rhan o'r teulu gam-drin.

Gall aelodau'r teulu fod yn rhan o gynhyrchu a dosbarthu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (fel delweddau neu fideos), mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac wrth gam-drin plant yn drefnus gan sawl camdriniwr. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ystyried y risg y bydd mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd wrth asesu plant a allai fod wedi profi cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu.

Mae cam-drin rhywiol o fewn y teulu yn aml yn digwydd ar y cyd â mathau eraill o gam-drin corfforol neu emosiynol neu esgeulustod, ac mae tystiolaeth o berthynas agos rhwng cam-drin plant a thrais domestig, rhwng cam-drin rhywiol yn ystod plentynod ac erledigaeth rywiol yn ystod y glasoed, a rhwng erledigaeth o fewn y teulu a'r tu allan i'r teulu.

Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn aml yn dechrau yn gynt na cham-drin y tu allan i'r teulu, ac efallai y bydd yn parhau am flynyddoedd lawer. Gall cam-drin gan aelod o'r teulu, yn enwedig rhiant neu ofalwr, fod yn arbennig o drawmatig oherwydd y brad, y stigma a'r cyfrinachedd sydd ynghlwm. I'r rheini sy'n cael eu cam-drin, mae wedi cael ei gysylltu ag iechyd corfforol a meddyliol gwael, incwm is, anawsterau o ran cynnal perthnasoedd ac ail-erledigaeth ar draws gwrs bywyd.

Mae effaith y cam-drin yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ei natur, ei ddifrifoldeb a'i hyd, profiadau eraill yn ystod plentynod, a'r gefnogaeth y mae'r plentyn yn ei gael. Mae ymatebion cefnogol gan ofalwyr nad ydynt yn cam-drin yn bwysig iawn.

Ni chaiff llawer o achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn teuluoedd eu datgelu. Efallai fod plant yn ofni'r camdriniwr(wyr) neu ddim eisiau iddynt fynd i drafferth; efallai eu bod yn credu mai 'eu bai nhw' oedd y gamdriniaeth, yn ofni beth allai ddigwydd i'w teulu os byddant yn dweud, neu'n peidio â chydabod eu profiad fel camdriniaeth. Efallai y bydd plant ag anableddau corfforol a dysgu, a phlant o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cymorth. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn effro i arwyddion o gam-drin plant yn rhywiol ac yn hyderus i gynnig cymorth priodol. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ddibynadwy, yn ddilys ac yn empathig, yn hwyluso dewis, rheolaeth a diogelwch, ac yn darparu eiriolaeth.

Gall cefnogaeth a therapi i blant – yn enwedig pan fydd yn cynnwys rhiant/rhieni nad ydynt yn c am-drin – gael effaith gadarnhaol. Mae gwasanaethau sy'n gwrando, yn credu ac yn parchu plant ac aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ond mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn dal i fod yn dameidiog.

Nod ein papurau ‘Negeseuon allweddol ymchwil’ yw darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol i ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maen nhw’n dod â’r ymchwil diweddaraf at ei gilydd i greu trosolwg hygyrch, gan gefnogi darpariaeth hyderus o’r ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Noder: Cyfeiria’r term ‘plant’ yn y ddogfen hon yn gyffredinol at unigolion dan 18 mlwydd oed.

Beth yw cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu?

Nid oes un diffiniad pendant o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol, yn ogystal â chamdriniaeth gan berthynas (fel rhiant, brawd neu chwaer neu nain neu daid), gall gynnwys cam-drin gan eraill sydd â chysylltiad agos â’r teulu, neu a ystyrir yn ‘un o’r teulu’, megis gofalwr maeth neu bartner rhiant (Horvath et al, 2014).

Mae’r ddealltwriaeth hon yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, sy’n nodi:

‘Mae’r troseddau hyn yn adlewyrchu’r uned deuluol fodern ac yn ystyried sefyllfaedd lle mae rhywun yn byw o fewn yr un aelwyd â phlentyn ac yn tybio safle o ymddiriedaeth neu awdurdod dros y plentyn hwnnw, yn ogystal â pherthnasoedd a ddiffinnir gan gysylltiadau gwaed, mabwysiadu, maethu, priodas neu fyw gyda’n gilydd fel partneriaid.’

(Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2022).

Mae siâp teuluoedd yn amrywio, felly wrth feddwl a yw cam-drin yn rhywbeth o fewn y teulu, efallai mai’r cwestiwn pwysicaf i weithwyr proffesiynol ei ystyried yw: ‘A oedd y troseddwr yn teimlo fel aelod o’r teulu i’r plentyn?’

Mynychder cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Nid ydym yn gwybod yn sicr faint o gam-drin plant yn rhywiol sy’n digwydd, ond mae astudiaethau’n awgrymu bod un o bob deg plentyn (15% o ferched a 5% o fechgyn) yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn iddynt gyrraedd 16 oed (Karsna a Kelly, 2021). Mae cam-drin yn yr amgylchedd teuluol yn cyfrif am bron i hanner yr holl droseddau cam-drin plant yn rhywiol sy’n cael eu riportio i’r heddlu yng Nghymru a Lloegr (Cyngor Genedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, 2023). Yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2019 (CSEW), dywedodd tua chwarter i draean o’r rhai sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol – a thua thraean i hanner y rheini yr oedd eu cam-drin wedi cynnwys treiddio neu drais rhywiol – fod aelod o’r teulu wedi bod yn rhan o’u cam-drin (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

Mae’r rhan fwyaf o bobl sy’n cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys mewn cyd-destun teuluol, yn ddynion, er bod cam-drin gan fenywod yn digwydd. Ymysg yr ymatebwyr i CSEW 2019, a ddywedodd eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol cyn 16 oed, nododd 5% eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan eu tadau, 6% gan eu llystadau, 1% gan eu mamau a 0.3% gan eu llysfamau; dywedodd 22% eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan aelodau eraill o’r teulu (rhywedd amhenodol) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Canfu astudiaeth arall yn y DU fod tua chwarter yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol yn cynnwys cam-drin gan rywun dan 18 oed (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015).

Mae gwaith ymchwil presennol yn dangos bod cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, o’i gymharu â cham-drin y tu allan i’r teulu, yn dechrau ar oedran iau yn gyffredinol; yn cynnwys troseddau mwy difrifol ac aml dros gyfnod hwy; ac mae bron bob amser yn digwydd yng nghyd-destun perthnasoedd mwy cymhleth sy’n ymwneud â dibyniaeth emosiynol ac ymarferol, yn ogystal â phŵer a rheolaeth (Ventus et al, 2017; Salter, 2018; Salter, 2013; Allnock a Miller, 2013).

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd mewn teuluoedd ar draws pob ethnigrwydd, ond mae dioddefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol rhag dweud wrth unrhyw un amdano a chael cymorth priodol (Gill a Harrison, 2018; Warrington et al, 2017). Gall lefelau uchel o gyfrinachedd, cywilydd a stigma mewn rhai cymunedau, ynghyd â thybjaethau diwylliannol gan weithwyr proffesiynol, gynyddu'r rhwystrau i riportio ac atal amddiffyn plant effeithiol (Hurcombe et al, 2022; Bernard a Harris, 2016; Cowburn et al, 2015; Gohir, 2013; Ali et al, 2021; Gilligan ac Akhtar, 2006). Mae plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli yn holl ddata'r asiantaeth, sy'n golygu bod eu profiadau o gam-drin plant yn rhywiol – gan gynnwys cam-drin o fewn y teulu – yn cael eu colli hyd yn oed yn amlach gan asiantaethau swyddogol na rhai plant Gwyn (Karsna a Kelly, 2021).

Mae plant anabl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin yn rhywiol na phlant nad ydynt yn anabl (Jones et al, 2012; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Maent yn aml yn fwy dibynnol ar eu gofawyr, gallent brofi mwy o rwystrau i gyfathrebu a gallent fod yn llai tebygol o gael eu hystyried yn ddioddefwyr posibl o gam-drin o fewn y teulu; gall y ffactorau hyn, ynghyd â diffyg gwybodaeth arbenigol ymysg gweithwyr proffesiynol, arwain at lefelau isel o ddatgelu ac ymatebion annigonol (Jones et al, 2012; Stalker et al, 2010).

Er bod y rhan fwyaf o waith ymchwil yn ymwneud â cham-drin rhywiol gan aelodau unigol o'r teulu, gall teuluoedd hefyd fod yn rhan o gam-drin plant wedi'i drefnu gan sawl camdriniwr (Salter, 2013), mewn ecsbloetio plant yn rhywiol (Berelowitz et al, 2013), neu wrth gynhyrchu a dosbarthu deunydd cam-drin plant yn rhywiol fel delweddau a fideos (Mitchell et al, 2005; Canadian Centre for Child Protection, 2017). Mae rhai arolygon o oedolion sydd wedi goroesi wedi canfod bod tua hanner yr unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu deunydd o'r fath yn aelodau o'r teulu, gyda rhieni biolegol/mabwysiadol neu lys-rieni yn aml yn gynhyrchwyr cynradd (Canadian Centre for Child Protection, 2017; Gewirtz-Meydan et al, 2018). Mae dadansoddiad o gynnwys delweddau a fideos yn awgrymu bod y rhan fwyaf wedi cael eu cynhyrchu yn y cartref (Canadian Centre for Child Protection, 2016; DeMarco et al, 2018), ac mae'r delweddau sy'n cael eu gwerthu amlaf ar-lein yn cynnwys cam-drin merched cyn y glasoed gan eu tadau (Seto et al, 2018).

Cam-drin gan y sawl sy'n ymddwyn fel rhieni

Tadau a llystadau yw'r perthnasau a geir amlaf yn euog o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu. O'u cymharu â throseddwyr a gafwyd yn euog y tu allan i'r teulu, maent yn fwy tebygol o ddisgrifio hanes o gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, cam-drin teuluol ac esgeulustod, ac ymlyniad gwael gan rieni, ond maent yn llai tebygol o lawer i feddu ar y tueddiadau gwrthgymdeithasol neu'r 'diddordebau rhywiol' penodol a nodir yn aml mewn troseddwyr y tu allan i'r teulu (Seto et al, 2015).

Mae cam-drin gan famau a menywod sy'n ofalwyr yn llawer llai cyffredin. Ymysg 986 o blant a gyfeiriwyd at ganolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Lloegr dros gyfnod o dair blynedd, roedd ffigurau rhieni benywaidd (e.e. mamau, llysfamau neu brif ofalwyr) ond yn cael eu hamau o gam-drin mewn 18 o achosion, o'i gymharu â 177 o achosion yn ymwneud â rhieni gwrywaidd (Majeed-Ariss et al, 2021). Pan fydd menywod yn cam-drin plant yn rhywiol, mae'n fwy tebygol o fod eu plant eu hunain, neu eraill sydd yn eu gofal yn rheolaidd, yn hytrach na'r rheini y tu allan i gyd-destun y teulu; pan fyddant yn cyd-droseddu, mae'n aml gyda phartner gwrywaidd agos (Gerke et al, 2021; Gerke et al, 2020; Williams a Bierie, 2015).

Ychydig o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi ar sut mae rhieni sy'n cam-drin yn llwyddo i ddylanwadu ar, neu dawelu eu plant. Nododd un astudiaeth fod rhai rhieni'n ceisio dylanwadu ar ganfyddiad eu plant o weithredoedd rhywiol drwy ddiffinio'r gamdriniaeth fel mynegiant iach o gariad a rhianta, fel profiad llawen, neu fel cosb y mae'r plentyn yn ei haeddu (Eisikovits et al, 2017). Roedd dadansoddiad o gyfweiliadau fforensig gyda phlant yn Israel (Katz a Field, 2022) wedi canfod prosesau meithrin perthynas amhriodol hir iawn gan rai tadau – yn para misoedd neu flynyddoedd – lle'r oedd cariad ac ymlyniad yn gymysg â chyffwrdd a siarad rhywiol amhriodol. Mewn rhai cyfweiliadau, disgrifiodd y plant bŵer aruthrol y tad dros y teulu cyfan a'i allu i'w dychryn ar sail ei bresenoldeb yn unig, heb fod angen geiriau na gweithredoedd. Roedd y plant hefyd yn pwysleisio sut roedd cam-drin yn teimlo'n 'normal' oherwydd ei fod yn digwydd mewn cyd-destunau arferol, bob dydd – e.e. wrth wneud gwaith cartref, cael bath neu wylio'r teledu – a hyd yn oed pan oedd aelodau eraill o'r teulu'n bresennol.

Cam-drin gan frodyr a chwiorydd

Gall achosion o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yn eithaf cyffredin, a lle nad oes anghydraddoldeb sylfaenol o ran pŵer, nid ydynt o reidrwydd yn gamdriniol (Finkelhor, 1980; Yates ac Allardyce, 2021). Fodd bynnag, gall ymddygiad rhywiol camdriniol gan frawd neu chwaer gael effeithiau tymor hir ac mae o bosibl yr un mor ddifrifol â mathau eraill o gam-drin rhywiol o fewn y teulu (Yates, 2017).

Mae gwaith ymchwil gydag oedolion sydd wedi goroesi ymddygiad rhywiol camdriniol gan frodyr a chwiorydd yn awgrymu bod cam-drin o'r fath yn aml yn digwydd mewn cyd-destun teuluol lle ceir trais domestig, cosb gorfforol a cham-drin rhywiol rhwng rhieni a phlant (McDonald a Martinez, 2017; Tener, 2021; Yates ac Allardyce, 2021). Yn y teuluoedd mwyaf camdriniol, efallai y bydd nifer o berthnasoedd camdriniol: gall plant gael eu cam-drin gan frawd neu chwaer, a gall plant fod yn dyst i gam-drin a/neu geisio amddiffyn brawd neu chwaer iau (Katz et al, 2021).

Nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Un anhawster wrth amcangyfrif pa mor gyffredin yw cam-drin rhywiol yw cyn lleied o gam-drin rhywiol sy'n cael ei ddatgelu o hyd: yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2019, dywedodd 64% o'r ymatebwyr a oedd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol gan riant, llys-riant neu warcheidwad nad oeddent wedi dweud wrth unrhyw un ar y pryd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020), ac amcangyfrifir mai dim ond un o bob wyth o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol sy'n dod i sylw awdurdodau statudol (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). O ganlyniad, mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol ac oedolion cyfrifol eraill yn gallu adnabod arwyddion cam-drin posibl a chymryd camau priodol (gweler Glinski, 2021). Mae *Negeseuon Allweddol o Waith Ymchwil ar Nodi Ddatgeliadau o Gam-drin Plant yn Rhywiol ac Ymateb Iddynt* (www.csacentre.org.uk/resources/key-messages/disclosures-csa/) y Ganolfan CPRh yn rhoi sylw manwl i'r pwnc hwn.

Mae'r rhesymau pam fod plant yn cadw'n dawel yn cynnwys eu bod yn ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, nid ydynt eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fynd i drafferth, maent yn teimlo mai 'eu bai nhw' oedd y cam-drin ac maent yn teimlo'n gyfrifol am beth fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud (Warrington et al, 2017). Yn ogystal, nid yw nifer o ddiodefwyr sy'n blant yn deall eu bod yn cael eu cam-drin tan yn llawer hwyrach, yn aml pan fyddant yn oedolion (Radford et al, 2011; Priebe a Svedin, 2008).

Nid yw llawer o blant yn 'dweud' mewn ffordd syml; yn hytrach, gall eu hymddygiad a'u dicter awgrymu bod rhywbeth o'i le, ac efallai bod dangosyddion posibl hefyd yn ymddygiad y rheini a allai fod yn eu cam-drin (Cossar et al, 2013; Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 2017; Glinski, 2021). Nid yw plant sydd yn dweud bob amser yn cael eu clywed na'u credu (Allnock a Miller, 2013) ac – fel y nodwyd uchod – mae plant anabl a rhai plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu mwy o rwystrau rhag datgelu. Gall plant sy'n cael eu cam-drin gan aelod benywaidd o'r teulu wynebu lefelau uwch o anghrediniaeth gan weithwyr proffesiynol, a allai israddio difrifoldeb camdriniaeth o'r fath (Clements et al, 2014).

Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Gall effaith cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod neu'r glasoed gael ei ddylanwadu gan ffactorau fel ei hyd, lefel yr ymyrraeth gorfforol, yr oedran y digwyddodd neu y dechreuodd y cam-drin, y berthynas rhwng y plentyn a'r sawl sy'n ei gam-drin, difrifoldeb profiadau niweidiol eraill, ac argaeledd cefnogaeth ym mywyd y plentyn (Fisher et al, 2017; Allnock, 2016; Fassler et al, 2005). Mae *Negeseuon Allweddol o Ymchwil i Effeithiau Cam-drin Plant yn Rhywiol* (www.csacentre.org.uk/resources/key-messages/impacts-of-child-sexual-abuse/) y Ganolfan CPRh yn rhoi sylw manwl i'r pwnc hwn.

Nid yw effeithiau cam-drin rhywiol ar ymdeimlad plentyn o ddiffyg grym, brad a dryswch yn unigryw i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu (Finkelhor a Browne, 1986; Glaser, 1991), ond gallai eu cyfuniad a'u dwysedd yn y cyd-destun hwn wneud y cam-drin yn arbennig o niweidiol.

Mae tystiolaeth bod cam-drin rhywiol o fewn y teulu yn aml yn digwydd ar y cyd â mathau eraill o gam-drin corfforol neu emosiynol neu esgeulustod (Dong et al, 2004; Dong et al, 2003). Yn ogystal, mae tystiolaeth o berthynas agos rhwng cam-drin plant a thrais domestig, rhwng cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod ac erledigaeth yn ystod y glasoed, a rhwng erledigaeth o fewn y teulu ac erledigaeth y tu allan i'r teulu (Song et al, 2022; Bidarra et al, 2016; Finkelhor et al, 2007a).

Mae cysylltiad cryf rhwng cam-drin plant yn rhywiol a chanlyniadau iechyd corfforol a meddyliol niweidiol, anawsterau o ran perthnasoedd, effeithiau economaidd-gymdeithasol ac erledigaeth bellach (Fisher et al, 2017; Vera-Gray, 2023). Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n profi cam-drin rhywiol yn dioddef canlyniadau difrifol (Sneddon et al, 2016). Mae effaith cam-drin rhywiol o fewn y teulu yn tueddu i gael ei waethygu pan fydd y cam-drin rhywiol yn cael ei gyfuno â mathau eraill o wahaniaethu neu fathau lluosog o gam-drin (Finkelhor et al, 2007b; Finkelhor et al, 2009), lle mae'n cynnwys nifer o gamdrinwyr neu rwydweithiau sydd wedi'u trefnu (Scott, 2001; Salter et al, 2003; Salter, 2013; Salter, 2017; Pacheco et al, 2023), neu pan fydd profiadau o drais a cham-drin rhyngpersonol yn digwydd ar draws gwrs bywyd (Scott et al, 2015).

Ymatebion effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Nid yw llawer o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael unrhyw gefnogaeth, gan nad yw'r cam-drin yn cael ei ddatgelu a bod y rhai o gwmpas y plentyn yn methu adnabod arwyddion o gam-drin. Pan nodir cam-drin, mae ymatebion proffesiynol a'r gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio'n fawr. Er bod plant yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael cymorth ar ôl iddynt ddweud, mae eu profiadau'n awgrymu bod gwasanaethau'n aml yn methu â'u cefnogi drwy brosesau amddiffyn plant a chyfreithiol (Smith et al, 2015; Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Mae plant yn gwerthfawrogi cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n ddibynadwy, dilys, optimistaidd a chalonogol, sy'n dangos gofal a thosturi, yn hwyluso dewis, rheolaeth a diogelwch ac sy'n darparu eiriolaeth (Warrington et al, 2017). Yn aml, mae yna lefel uwch o foddhad gyda gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol – gan gynnwys canolfannau argyfwng trais, gwasanaethau cwnsela a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol – o gymharu â gwasanaethau statudol megis yr heddlu, ysbytai a gofal cymdeithasol (Smith et al, 2015; McNeish et al, 2019; Jay et al, 2022).

Ymatebion amddiffyn plant

Mae ymatebion amddiffyn plant i gam-drin rhywiol o fewn y teulu wedi cael eu heffeithio gan newidiadau i dueddiadau o ran blaenoriaethau, gyda rhai mathau o gam-drin rhywiol yn llithro i lawr yr agenda wrth i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner ganolbwyntio'n benodol ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a blaenoriaethu materion eraill megis effaith trais domestig ar blant. Gall lefelau isel o ganfod cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu hefyd adlewyrchu pryderon proffesiynol a sefydliadol am gam-drin rhywiol o fewn y teulu: pa mor brin ac anodd yw hi i blant siarad am yr hyn sy'n digwydd iddynt, dealltwriaeth broffesiynol wael o wadu a datgyffesu, ac anhawster dod o hyd i ffyrdd o amddiffyn plant mewn cyd-destun teuluol cymhleth. Gall yr holl ffactorau hyn ennyn teimladau o ddiymadferthedd proffesiynol (Lovett et al, 2018; Nelson, 2016).

Canfu arolygiad ardal wedi'i dargedu ar y cyd o'r ymateb aml-asiantaeth i gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol ddiffygion niferus yn yr ymatebion (Ofsted et al, 2020). Roedd y rhain yn cynnwys:

- ▶ gweithwyr proffesiynol heb yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i nodi ac amddiffyn plant;
- ▶ ymarfer yn y maes hwn yn cael ei arwain yn ormodol gan yr heddlu ac nid yw'n canolbwyntio digon ar y plentyn;
- ▶ diffyg blaenoriaeth i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, a systemau a ddatblygwyd ar gyfer delio â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun cam-drin yn yr amgylchedd teuluol;
- ▶ gweithwyr proffesiynol sy'n dibynnu gormod ar blant i ddatgelu camdriniaeth ar lafar;
- ▶ disgwyliadau afrealistig o allu mamau i amddiffyn eu plant heb fawr ddim cefnogaeth.

Mae gwelliant yn galw am weithwyr proffesiynol hyderus, sy'n gallu gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant, a system amddiffyn plant sy'n gefnogol, yn hytrach nac un fiwrocraataidd ac sy'n canolbwyntio ar dargedau. (Munro, 2011).

Ymyriadau cyfiawnder troseddol

Er bod cofnodion yr heddlu o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyn lefelu yn 2019/20, bu gostyngiad sydyn yng nghyfran yr ymchwiliadau a arweiniodd at gyhuddiad neu wŷs - o 32% yn 2014/15 i 11% yn 2021/22. Mae achosion sy'n ymwneud â cham-fanteisio rhywiol, meithrin perthynas amhriodol neu gam-drin plant yn rhywiol yn fwy tebygol o arwain at erlyniadau, o'u cymharu â'r rheini sy'n ymwneud â thrais neu ymosodiad rhywiol (Karsna a Bromley, 2023). Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn cynnwys treisio neu ymosodiad rhywiol, ond nid oes data ar gael ar y berthynas rhwng y sawl sy'n cam-drin a'r dioddefwr.

Canfu'r arolygiad ardal wedi'i dargedu ar y cyd o 2020, y cyfeirir ato uchod (Ofsted et al, 2020), fod ansawdd ymchwiliadau troseddol i gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol weithiau'n wael, gydag achosion cymhleth yn cael eu rheoli gan swyddogion llai profiadol ac oedi sylweddol, a oedd yn golygu bod plant mewn perygl o gael eu cam-drin ymhellach.

Cymorth therapiwtig

Mae amrywiaeth o ymyriadau seicogymdeithasol a gynigir i oedolion a phobl ifanc sydd wedi goroesi trais a cham-drin rhywiol ar gael at ddiben gwella eu hiechyd meddwl a'u lles (Lomax a Meyrick, 2022; Brown et al, 2022). Fodd bynnag, mae prinder cymorth therapiwtig i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, ac mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael mewn ardaloedd lleol. Mae'r cymorth yn aml yn gyfyngedig o ran amser ac, ar ôl iddo ddod i ben, nid oes darpariaeth os bydd effeithiau pellach trawma'n dod i'r amlwg yn nes ymlaen (McNeish et al, 2017; Ofsted et al, 2020).

Ymyriadau tymor hwy sy'n canolbwyntio ar drawma ac sy'n gweithio gyda'r plentyn a rhiant nad yw'n cam-drin sydd â'r sylfaen dystiolaeth gryfaf (Hahn et al, 2016; King et al, 2000; Cohen et al, 2005).

Cymorth sy'n canolbwyntio ar y teulu

Mae ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan, yn ogystal â'r plentyn unigol, yn bwysig (Carpenter et al, 2016; Horvath et al, 2014; a gweler Parkinson, 2022), yn bennaf oherwydd bod plant yn aml yn teimlo'n gyfrifol am ofid eu teulu yn sgil cam-drin rhywiol, a gellir lleihau hyn drwy ddarparu cymorth i aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin (Warrington et al, 2017).

Mae canfod bod eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn argyfwng bywyd mawr i riant nad yw'n cam-drin, yn aml gydag effeithiau hirdymor ar eu hiechyd meddwl (Davies a Bennett, 2022; Kilroy et al, 2014; Humphreys, 1995; Lipton, 1997; Elliott a Carnes, 2001; Hill, 2001). Gall hyn fod yn arbennig o wir os ydynt wedi profi cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod eu hunain, gan y gall sbarduno atgofion am eu profiad eu hunain o gam-drin (Elliot a Carnes, 2001). Pan fydd partner neu gynbartner y rhiant nad yw'n cam-drin yn cael ei amau o'r cam-drin, mae'r effaith yn emosiynol ac yn ymarferol, gyda'r potensial i achosi'r teulu i chwalu ac ansefydlogrwydd o ran arian a chartref (Gilroy et al, 2016; Butt, 2020).

Pan fydd cam-drin rhywiol gan frawd neu chwaer yn cael ei ganfod, mae hyn hefyd yn cynrychioli argyfwng yn y teulu. Mae ymatebion nodweddiadol yn cynnwys sioc, anghrediniaeth, dicter a beio eu hunain, a gall rhieni deimlo'u bod yn cael eu rhwygo rhwng anghenion y plentyn sydd wedi cam-drin a'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio (Tener et al, 2018; Tener et al, 2020; Yates ac Allardyce, 2021).

Pan fydd rhiant nad yw'n cam-drin yn darganfod bod ei blentyn wedi cael ei gam-drin o fewn y teulu, mae'r ffordd maen nhw'n ymateb yn hollbwysig. Mae cefnogaeth dda gan rieni yn gysylltiedig â gwell canlyniadau tymor hir i blant (Elliot a Carnes, 2001; Kendall-Tackett et al, 1993), sy'n golygu ei bod yn bwysicach fyth bod rhieni'n cael eu cefnogi yn eu tro gan weithwyr proffesiynol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth i deuluoedd yn canolbwyntio ar anghenion rhieni nad ydynt yn cam-drin, fel arfer mamau. Mae effaith cam-drin o fewn y teulu ar bob plentyn sy'n rhan o'r teulu – boed yn ddiodefwr, yn dyst i'r cam-drin, heb fod yn ymwybodol ohono neu wedi cam-drin brawd neu chwaer – yn cael ei hanwybyddu'n aml. Lle mae cam-drin o fewn y teulu wedi cynnwys brawd neu chwaer yn cam-drin, canfuwyd bod cyfranogiad proffesiynol sy'n asesu ac yn mynd i'r afael ag anghenion y teulu cyfan wedi gwella adferiad plant sydd wedi cam-drin, y plant sydd wedi cael eu cam-drin, eu rheini a brodyr a chwiorydd eraill (Tener a Sillberstein, 2019). Fodd bynnag, rhaid cydnabod nad yw ymyriad teuluol o'r fath bob amser yn bosibl, nac yn ddoeth hyd yn oed, os yw'r teulu'n rhy anhrefnus, di-drefn neu gamdriniol (Yates ac Allardyce, 2021). Canfu un astudiaeth ar raddfa fach, mewn wyth o bob naw o deuluoedd lle'r oedd rhiant neu ofalwr maeth wedi riportio'r ymddygiad a bod penderfyniad wedi'i wneud i'r brodyr a chwiorydd barhau i fyw gyda'i gilydd neu gael cyswllt heb oruchwyliaeth, fod digwyddiad pellach yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol rhwng y brodyr a chwiorydd neu blentyn arall o fewn y teulu (Yates, 2018).

Mae rhai ymchwilwyr o'r farn bod anghenion cefnogaeth gofawr nad ydynt yn cam-drin yn anwahanadwy oddi wrth anghenion cefnogaeth y plentyn, ac na ddylai gweithwyr proffesiynol ddiystyru eu trallod hwy hefyd (van Toledo a Seymour, 2013). Mae mamau yn aml yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu beio, eu beirniadu ac nad ydynt yn cael eu deall gan ffrindiau ac aelodau eraill o'r teulu (Killy et al, 2014; van Toledo a Seymour, 2016). Felly, mae cymorth gan weithwyr proffesiynol sy'n gefnogol, yn empathig ac yn wybodus am y mater yn cael ei werthfawrogi'n fawr (Serin, 2018; Parkinson, 2022).

Mae canfyddiadau o dreialon therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) ar sail trawma yn cyfeirio at bwysigrwydd cyfranogiad ac addysg gofawr er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a lleihau straen gofawr (Macdonald et al, 2012). Mae tystiolaeth gref bod CBT i rieni nad ydynt yn cam-drin a phlant oedran ysgol yn effeithiol o ran atal dirywiad iechyd meddwl plant a/neu achosion eraill o gamdriniaeth (Stewart-Brown a Schrader-McMillan, 2011; Corcoran a Pillai, 2008).

Canfu gwerthusiad o raglen *'Women as Protectors'* yr NSPCC (sydd wedi'i hanelu'n benodol at famau a gofawr sydd mewn cysylltiad â dynion sy'n peri risg o niwed rhywiol i blant) effaith gadarnhaol ar allu menywod i gadw eu plant yn ddiogel, a chynhaliwyd sefydlogrwydd o ran iechyd meddyliol ac emosiynol llawer o'r cyfranogwyr. Roedd menywod yn gwerthfawrogi elfen gwaith grŵp y rhaglen yn arbennig (Romanou a Margolis, 2019).

